**<u>PEN TELERAU TRWYDDED NEWYDD I FEDDIANNU TIR AR DRAETH ABERMAW</u>**

***<u>NEW LICENCE TO OCCUPY HEADS OF TERMS FOR LAND ON ABERMAW BEACH</u>***

**HEB RAGFARN AC YN AMODOL I GONTRACT**

***WITHOUT PREJUDICE & SUBJECT TO CONTRACT***

| | |
|---|---|
| **Trwyddedwr** | Cyngor Gwynedd o Swyddfeydd Y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH<br><br>E: morwrol@gwynedd.llyw.cymru |
| ***Licensor*** | *Cyngor Gwynedd of Swyddfeydd Y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH*<br><br>*E: morwrol@gwynedd.llyw.cymru* |
| **Trwyddedai** | I’w gadarnhau |
| ***Licensee*** | *To be confirmed* |
| **Cyfreithwyr y Trwyddedwr** | Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd o Swyddfeydd Y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH<br><br>E: TimGweinyddolCyfreithiol@gwynedd.llyw.cymru |
| ***Licensor’s Solicitors*** | *Cyngor Gwynedd Legal Services of Swyddfeydd Y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH*<br><br>*E: TimGweinyddolCyfreithiol@gwynedd.llyw.cymru* |
| **Cyfreithwyr y Trwyddedai** | I’w gadarnhau |
| ***Licensee’s Solicitors*** | *To be confirmed* |
| **Trwydded i ddefnyddio** | Bydd y Trwyddedai yn defnyddio’r Eiddo fel trwyddedai ac ni fydd perthynas landlord a thenant yn cael ei greu rhwng y trwyddedwr a’r Trwyddedai fel rhan o’r drwydded. |
| ***Licence to Use*** | *The Licensee shall use the Premises as a licensee and no relationship of landlord and tenant is created between the Licensor and the Licensee by the licence.* |
| **Iaith** | I’w gadarnhau. |
| ***Language*** | *To be confirmed.* |
| **Eiddo** | Yr eiddo ar draeth Abermaw wedi ei amlinellu yn goch ar y Cynllun ar gyfer dibenion adnabod. |
| ***Premises*** | *All that area of beach at Abermaw shown edged red on the Plan for identification purposes.* |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cynllun** | Y Cynllun ynghlwm â'r Telerau hyn. |
| ***Plan*** | *The Plan attached to these Terms.* |
| **Rhent** | I'w gadarnhau. |
| ***Rent*** | *To be confirmed.* |
| **Cyfnod** | 3 (tair) mlynedd o'r 1af o Ebrill 2026. |
| ***Term*** | *3 (three) years from the 1st of April 2026.* |
| **Cymal Torri** | Gall y naill barti neu'r llall dorri'r Drwydded ar unrhyw adeg ar ôl pen-blwydd cyntaf y Drwydded ar ôl darparu 3 mis o rybudd ysgrifenedig. |
| ***Break Clause*** | *Either party may break the Licence at any time after the first anniversary of the Licence on providing 3 months' written notice.* |
| **Defnydd a Ganiateir** | Gweithredu uned sawna symudol a defnyddiau ategol yn unig.<br><br>Bydd y sawna symudol a'r holl adnoddau yn cael eu clirio ac ni fyddent yn cael eu storio ar yr Eiddo tu hwnt I'r Oriau Gweithredu. |
| ***Permitted Use*** | *Operation of a mobile sauna unit and ancillary uses only.*<br><br>*The mobile sauna and all equipment will be removed and are not to be stored on the Premises outside of the Designated Hours.* |
| **Oriau Gweithredu** | I'w gadarnhau. |
| ***Operating Hours*** | *TBC* |
| **Hawliau Eraill Rhoddwyd i'r Trwyddedai** | Bydd y Trwyddedai yn cael yr hawl i groesi tir cyfagos y Trwyddedwr i gael mynediad at yr Eiddo. |
| ***Other Rights Granted to the Licensee*** | *The Licensee shall be granted the right to traverse the Licensor's adjoining land to access the Premises.* |
| **Cyflwr** | Gosodir yr Eiddo yn ei gyflwr presennol a bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei adael mewn cyflwr heb fod yn waeth yn dilyn pob defnydd ohono. |
| ***Condition*** | *The Premises is let in its current condition and the Licensee shall ensure that it is left in no worse condition following each use.* |
| **Sbwriel** | Bydd y Trwyddedai yn cymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw lygredd rhag cael ei achosi ganddynt neu eu cwsmeriaid / defnyddwyr. Bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am gywiro unrhyw lygredd achosir gan y Trwyddedai neu eu cwsmeriaid / defnyddwyr ac yn atebol am unrhyw fethiant i wneud hynny. |
| ***Litter*** | *The Licensee will take all reasonable steps to prevent any pollution from being caused by them or their customers / users. The Licensee* |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | *will be responsible for correcting any pollution caused by the Licensee or their customers / users and liable for any failure to do so.* |
| **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** | Bydd gan y Trwyddedai Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus mewn perthynas â'r Eiddo gydag isafswm yswiriant o £10,000,000.00 (deg miliwn o bunnoedd). |
| ***Public Liability Insurance*** | *The Licensee shall hold Public Liability Insurance in respect of the Premises with a minimum cover of £10,000,000.00 (ten million pounds).* |
| **Aralliad** | Nid oes hawl i'r Trwyddedai aseinio, is-osod nac fel arall waredu meddiant y cyfan nac unrhyw ran o'r Eiddo. |
| ***Alienation*** | *Assignment, subletting or parting of the whole or any part of the Premises is strictly prohibited.* |
| **Cydymffurfiaeth a Gofynion Statudol** | Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, gorchmynion a rheoliadau sy'n effeithio ar yr Eiddo.<br><br>Yn unol â hyn, gwaherddir noethni tu hwnt i ystafell newid bwrpasol i osgoi risg o amlygiad anweddus. |
| ***Statutory Compliance*** | *The Licensee shall ensure compliance with all laws, statutes, orders and regulations affecting the Premises.*<br><br>*Accordingly, nudity is prohibited beyond a dedicated changing room to avoid risk of indecent exposure.* |
| **Costau Cyfreithiol** | Bydd y Trwyddedai yn talu cyfraniad tuag at gostau cyfreithiol y Trwyddedwr (£345 yn ddibynnol ar gymhlethdod yr achos).<br><br>Bydd y Tenant yn ysgwyddo costau cyfreithiol ei hun. |
| ***Legal Costs*** | *The Licensee shall pay a contribution towards the Licensor's legal costs (£345 depending on the complexity of the case).*<br><br>*The Tenant shall bear their own legal costs.* |
| **Indemniad** | Bydd y Trwyddedai yn diogelu a rhyddarbed y Trwyddedwr rhag unrhyw achos neu hawliad mewn perthynas ag unrhyw niwed, difrod neu golled i unrhyw berson neu bersonau mewn perthynas â'r Eiddo. |
| ***Indemnity*** | *The Licensee shall protect and indemnify the Licensor from any cause or claim in relation to any harm, damage or loss to any person or persons in relation to the Premises.* |
| **Termau Eraill** | Yr holl delerau ac amodau eraill sy'n gyffredin mewn trwyddedi o'r natur yma. |
| ***Other Terms*** | *All other terms and conditions common in licenses of this nature.* |

Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras

*These details do not constitute any part of an offer or contract and should not be relied on*

DRAFT

fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.

*as statements or representations of fact. All measurements are approximate. Prospective tenants should verify the measurements and other information which is provided for guidance only. Cyngor Gwynedd do not undertake to accept the highest or any other offer.*

DRAFFT